## Dewch Canwn / Venite    tôn: Sosban Fach

Dewch, canwn yn llawen i'r Arglwydd,
I'r Graig sy'n ein hachub rhown hŵre (hŵre!);
A down i'w bresenoldeb â diolch,
A gweiddi ein moliant iddo Ef.

> Duw mawr yw ein Harglwydd byw,
> Brenin mawr y ddaear lawr,
> Dewch, canwn yn llawen iddo Ef!

Mae crombil y ddaear yn ei ddwylo,
A chopa pob mynydd uchel sydd;
A'i eiddo Ef yw'r môr, Ef a'i greodd,
A'i ddwylo a luniodd y tir sych.

Dewch bawb oll ynghŷd i'w addoli,
I'n Duw ni ymgrymwn i lawr;
Dewch hen ac ifanc, plygwn ein gliniau
O flaen ein Gwneuthurwr mawr.

Ein Duw yw, a ni yw ei bobl,
Y defaid sy'n pori ar ei dir;
Os gwrandwch ar ei lais Ef heddiw
Cewch brofi ei nerth yn wir.

*O come, let us sing to the Lord; to*
*the Rock who protects us shout hooray (hooray!)*
*And come before God with thanksgiving,*
*And joyfully sing our song of praise!*

> *Great is God, and King of kings,*
> *Worthy of the praise we sing,*
> *O come, let us worship and rejoice!*

*In his hand are the depths of the earth, and*
*the heights of the mountains, all are his;*
*And his is the sea, for he made it,*
*He formed the dry land, and all that is.*

*O come, let us bow down and worship*
*the Lord who created all the earth,*
*And kneel before God our Maker,*
*And loudly proclaim his worth.*

*For he is our God, we his people,*
*The sheep of his pasture, in his hand;*
*Today if you listen to his voice, you*
*will know his great power in our land.*